

ADNODD I YSGOLION CYFUN

LLUNTIWCH
Y

DDADL



EDUCATION
SERVICE



Youth Parliament
MAKING OUR MARK

United Kingdom

CROESO

Cafodd y pecyn Lluniwch y Ddadl ei gynhyrchu gan Wasanaeth Addysg y Senedd gyda chymorth Senedd Ieuenctid y DU.

Mae dysgu dadlau yn help i baratoi myfyrwyr at fywyd fydd yn llawn penderfyniadau heriol. Mae'r pecyn hwn yn llawn syniadau i hybu cynnal dadleuon mewn ysgolion cyfun, syniadau y gallwch eu haddasu a'u datblygu i weddu i'ch sefyllfa chi a helpu myfyrwyr:

- Ffurio safbwyntiau
- Cyfiawnhau eu safbwyntiau
- Gwrando ar eraill a dysgu oddi wrth eraill
- Deall sut y mae gwahanol fathau o ddadleuon yn gweithio
- Dysgwch am Ddadlau seneddol – a rhowch gynnig arni!
- Cymerwch ran yn Wythnos y Senedd ym mis Tachwedd

Ar draws y cwicwlwm

Gall dadlau fod yn offeryn dysgu grymus ar gyfer:

- Dinasyddiaeth
- Gwleidyddiaeth a Llywodraeth
- Gwasanaethau Cyhoeddus BTEC
- Gwasanaethau'r Bore
- Hanes
- Cymraeg a Saesneg
- Gweithgareddau allgyrsiol megis clybiau dadl a chystadlaethau

Bob blwyddyn byddwn yn cynhyrchu poster am ddim yn cynnwys manylion am gyfleoedd yn ystod Wythnos y Senedd a mwy, gweler www.parliamentweek.org/schools



Cynnwys

2 Gwnewch ymarfer cynhesu

Gemau ac ymarferion dadlau

5 Dulliau dadlau

Gwahanol fathau o ddadlau yn cynnwys dull y Tŷ Cyffredin

9 Ewch ati!

Cyfleoedd gwyh i gymryd rhan' to 'Syniadau i fynd â'r dadlau ymhellach a gwneud gwahaniaeth

11 Ein partneriaid

Mwy am Senedd Ieuenctid y DU, y Cyngor Ieuenctid Prydeinig

GWNEWCH YMARFER CYNHESU

Dyma rai gemau ac ymarferion i gael y myfyrwyr i feddwl ac i osod y sail ar gyfer dadlau mwy ffurfiol. Gellir eu defnyddio un ar ôl y llall i adeiladu sgiliau dros gyfnod, neu gallwch ddewis y rheiny sy'n addas ar gyfer eich myfyrwyr chi.

Cynheswch eich llais

Mae dadlau yn fusnes lleisiol felly defnyddiwch y dywediadau Saesneg lletchwith hyn i gael pawb i gynhesu a siarad yn glir. Bydd y dosbarth yn sefyll mewn cylch a chi'n arwain, gan ailadrodd a chyflymu nes mae'r cyfan yn chwalu!

Red leather, yellow leather

Seventy-seven benevolent elephants

Oer yw'r Eira ar Eryri

Llanfairpwllgwyngyllgogerychwyrndrob-
wlllantysiliogogoch

Adolygu papurau

Rhowch gopi o bapur newydd i bob grŵp – wedi'i argraffu neu ar-lein, cenedlaethol neu leol.

Bydd gan y grwpiau bum munud i ddewis tair stori o'u papur fydd yn eu barn hwy yn bynciau dadl da.

Caniatewch bum munud i leihau'r dewis i un pwnc ac yna i restru'r prif bwyntiau o blaid ac yn erbyn.

Gwnewch i bob grŵp adrodd yn ôl i'r dosbarth cyfan.

Gofynnwch i bob grŵp ddisgrifio'r dull a ddefnyddiwyd ganddynt i ddod i gytundeb ar y dewis terfynol megis dadlau, pleidleisio cudd, pleidleisio agored, taflu ceiniog ac ati.

Tynnwch sylw at yr elfennau allweddol hyn: syniadau unigol, ffurfio barn, dylanwadu ar eraill, dadl resymol, dyfynnu ffeithiau a derbyn barn y mwyafrif.



Pleidleisiwch gyda'ch traed

Gwnewch i'r dosbarth sefyll ar eu traed a rhannu'r ystafell yn ddwy fel bod un ochr 'O Blaid' a'r hanner arall 'Yn Erbyn'.

Gwnewch ddefnydd sydyn o'ch bwrdd gwyn rhyngweithiol, neu galwch allan gyfres o gynigion cyflym am ddeddfau newydd. Rhaid i'r dosbarth bleidleisio gyda'u traed, gan symud yn syth i'r ochr briodol o'r ystafell.

Gallech ddewis topigau sy'n berthnasol i'ch ysgol neu ardal, neu ddefnyddio syniadau o'r gweithgaredd 'Adolygu papurau newydd' neu roi cynnig ar un o'r topigau hyn:

- Dylid cychwyn gosod profion i bobl sydd am ddefnyddio byrddau sglefrio fel dull teithio.
- Ni ddylai unrhyw un dan 16 oed wyllo mwy na phum awr o deledu yr wythnos.
- Dylid gwahardd gwisg ysgol ym mhob ysgol.
- Dylai gwisg ysgol fod yn orfodol ym mhob ysgol.

- Dylai perchnogion cŵn mawr basio prawf i brofi eu bod yn gallu eu rheoli.
- Dylai gwisgo helmedau beic fod yn orfodol drwy gyfraith.
- Dylai fod yna nifer cyfartal yn fras o ASau benywaidd a gwrywaidd.
- Dylid cyfnewid yr wythnos waith a'r penwythnos – wythnos dau ddiwrnod a phenwythnos pum diwrnod.
- Dylai myfyrwyr gael y rhyddid i adael ysgol yn 14 a mynd i weithio.
- Dylid gwahardd perchnogaeth ceir preifat i warchod yr amgylchedd.

Pan fydd pawb wedi pleidleisio, gofynnwch i un neu ddau o bob ochr esbonio pam eu bod wedi pleidleisio yn y ffordd honno. Rhwch y cyfle i'r myfyrwyr newid ochr os ydynt am wneud hynny.



Cylch dadlau

Mae'r dosbarth yn eistedd mewn cylch. Dewiswch bwnc fel un o'r uchod, a'i anfon o amgylch y cylch. Mae'r person cyntaf yn dweud 'Ydy, oherwydd...' a rhoi rheswm o blaid dewis y pwnc, mae'r ail berson yn dweud 'Na, oherwydd...' a chynnig rheswm yn erbyn. Cariwch ymlaen o un i un nes y cyrhaeddwch y dechrau eto. Bydd raid i'r rhai sy'n nes ymlaen yn y cylch feddwl yn fwy creadigol i gynnig syniadau newydd.

Os bydd unrhyw un yn methu meddwl awgrymwch eu bod yn cymryd un o'r syniadau a roddwyd yn barod a'i ddatblygu, fel yn: 'Na, oherwydd fel y dywedodd Mahinda byddai'n tynnu'r hwyl i gyd o sglefyrddio a dwi'n meddwl y gallai hynny arwain at fwy o broblemau cymdeithasol'.

Cyflewch eich neges mewn sylw bachog

Gofynnwch 'Beth yw sylw bachog'? Trafodwch y prif nodweddion, gan egluro bod 'sylw bachog':

- Yn ddywediad byr
- Yn cyfleu craidd eich neges
- Yn hawdd i'w gofio
- Yn aml yn creu ymateb teimladol yn y gynulleidfa:
'Rwy'n hoffi hwnna' neu 'Dwi'n cytuno'

Gofynnwch i'r myfyrwyr nodi unrhyw sylwadau bachog y maent wedi dod ar eu traws ac yna i weithio mewn grwpiau i ddatblygu sylw bachog cofiadwy o blaid neu yn erbyn unrhyw bwnc.

Atgoffwch nhw mai rhywbeth i'w glywed yw sylw bachog felly anogwch nhw i'w adrodd yn uchel er mwyn clywed sut mae'n swnio. Efallai y bydd eu sylw bachog nhw yn anoddach i'w ddweud na'r disgwyl a bod rhai dywediadau sy'n edrych yn dda ar bapur yn llai effeithiol wrth eu hadrodd yn uchel.

DATBLYGIAD

Mae rhai pobl, yn arbennig bobl broffesiynol fel grwpiau lobio a chanddynt neges i'w gyfleu, yn ffafrio'r rheol 3-9-27. Y gred yw y dylai sylw bachog, er mwyn bod yn fyr, cofiadwy ac effeithiol gynnwys tri phwynt mewn naw eiliad gan ddefnyddio dau ddeg saith o eiriau. Drwy ddefnyddio un o'r syniadau uchod neu un eich hun, heriwch y dosbarth mewn parau i greu eu sylw bachog cyfryngol eu hunain o blaid neu yn erbyn. Bydd angen iddynt berswadio'r gwrandawr mewn un dywediad syml, yn union fel wrth agor dadl.

ENGHRAIFFT:

Caiff gwagedd eu tangynrychioli yn y Senedd; nhw sy'n ffurfio hanner y boblogaeth ond mae llawer mwy o ASau gwrywaidd. Mae cydraddoldeb yn cyfrif – gweithred nid gair!

Mae tri phwynt yma: tangynrychiolir gwagedd, maent y cyfri am hanner y boblogaeth, mae yna alwad am weithredu (gweithred nid gair). Mae'n ddau ddeg saith gair ac yn cymryd tua naw eiliad i'w ddweud. Pwysleiswch mai canllaw yw'r rheol 3-9-27; os bydd pymtheg gair a deuddeg eiliad yn gweithio'n well, wel iawn!

Gwylwch y Tŷ Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi wrthi'n dadlau

Ewch i sianel YouTube y Senedd i ddarganfod dadleuon diweddar yn y ddwy siambr a gwylwch nhw fel dosbarth fel rhan o'ch paratoad.

Gallwch drafod arddull gyffredinol y ddadl, rolau'r bobl sy'n cymryd rhan, (yn cynnwys Llefarydd y Tŷ Cyffredin neu Arglwydd Llefarydd Tŷ'r Arglwyddi), ac arddulliau gwahanol yr unigolion fydd yn cymryd rhan. Beth oedd yn effeithiol a ddim mor effeithiol? Gallwch ddarganfod nifer o glipiau gwych yma: www.youtube.com/user/UKParliament



DULLIAU DADLAU

Defnyddiwch y rhain i adeiladu sgiliau a hyder drwy dull cam wrth gam neu dewiswch y syniadau sy'n iawn ar gyfer eich myfyrwyr chi.

Dadl balŵn

Gall y gêm ddadlau adnabyddus hon fod yn gyflwyniad llawn hwyl i gynnal dadl. Mae'n gofyn am yr elfennau dadl allweddol hyn:

- Dadl glir
- Y gallu i gael eich safbwynt drosodd
- Pleidlais cynulleidfa

DULL

Yn y fersiwn glasurol mae grŵp o fyfyrwyr, pump dyweder, (ond gellir amrywio'r rhif), yn dewis person enwog i 'ddynwared'. Maent yn sefyll o flaen y dosbarth.

Maent yn dychmygu eu bod mewn basged balŵn a bod y balŵn yn colli uchder fel bod rhaid i'r llefarwyr, un wrth un, gael eu 'taflu i'r môr'!

Bydd pob myfyriwr yn gwneud datganiad fel y person enwog gan esbonio pam y dylai ef neu hi gael eu hachub. Pan fydd pob un wedi siarad, bydd y dosbarth yn pleidleisio ar bwy i'w daflu o'r fased. Bydd yna rowndiau eraill wedyn nes bydd ond un person ar ôl – yr enillydd.

DATBLYGIAD

Cadwch strwythur y ddadl balŵn ond cyfnewidiwch y bobl enwog am syniadau y bydd y myfyrwyr yn eu cyflwyno ac yn dadlau drostynt. Gallen nhw ddefnyddio'r fformat 'cyfraith newydd' (gweler Pleidleiswch gyda'ch traed).

Mae Senedd leuenctid y DU yn ymgyrchu ar nifer o faterion, rhai sy'n effeithio'n benodol ar bobl ifanc, eraill sy'n fwy cyffredinol ac yn effeithio ar gymdeithas yn gyffredinol. Gellir gweld gwybodaeth am ymgyrchoedd presennol ar: www.ukyouthparliament.org.uk



Perswadiwch fi

Dull dadlau grŵp bach yw hwn. Mae'n datblygu llawer o'r sgiliau sydd eu hangen wrth ddadlau'n fwy ffurfiol ond yn caniatáu diogelwch gwaith grŵp heb gael eich rhoi 'ar y spot' fel petai o flaen y dosbarth. Dyma'r drefn:

Rhannwch y dosbarth i grwpiau bach. Mae'n bwysig bod yna odrif o aelodau. Bydd gan grŵp o bump un o blaid, un yn erbyn a thri i benderfynu.

Bydd gan grŵp o saith ddau o blaid, dau yn erbyn a thri i benderfynu NEU un o blaid, un yn erbyn a phump i benderfynu.

DULL

Dewisir pwnc. Gallech roi'r un pwnc i bob grŵp ac, ar ddiwedd y sesiwn, cyfrif y pleidleisiau a defnyddio hyn i ddechrau trafodaeth ddosbarth; neu gall pob grŵp gael pwnc gwahanol.

Gellir rhoi'r pynciau ymlaen llaw gydag amser i baratoi neu gellir eu rhoi gydag ond rhai munudau i feddwl. Mae'r dull cyntaf yn well am ddatblygu meddwl mewn manylder a sgiliau ymchwil, tra bydd yr ail dull yn ffafrio hyder a 'meddwl ar y pryd'.

Caniatewch i'r ochr 'O Blaid' gael dwy funud i roi'r cynnig gerbron i'w grŵp a dweud pam ei fod yn syniad da. Gosodwch watsh amseru a galw amser, defnyddio chwiban neu ganu cloch i newid drosodd. Bydd y person sydd 'Yn Erbyn' ym mhob grŵp wedyn yn rhoi'r cynnig gerbron, gan esbonio pam nad ydynt yn cefnogi'r syniad. Galwch amser eto ar ôl dwy funud a gofyn i'r rhai sy'n penderfynu i bleidleisio. Bydd yr odrif yn sicrhau canlyniad oni bai eich bod yn dewis caniatáu atal pleidlais.

Os bydd amser yn caniatáu newidiwch y rolau o fewn y grwpiau fel bod yna 'O Blaid', 'Yn Erbyn' a 'Phenderfynwyr' newydd.

DATBLYGIAD

Gallech:

- Ganiatau i'r dadleuwyr gael dwy funud pellach i wrthbrofi dadleuon ei gilydd.
- Caniatáu i'r penderfynwyr gwestiynu'r dadleuwyr ar ôl pob rownd.
- Cyflwyno'r syniad o 'roi mewn' pan fydd unrhyw un yn y grŵp yn gallu codi llaw i dorri ar draws y llefarydd allai gytuno i 'roi mewn' er mwyn caniatáu cwestiwn gan y gwrthwynebydd neu un o'r penderfynwyr. Byddwch angen caniatáu mwy o amser gyda'r dull hwn. Gallech apwyntio un o'r penderfynwyr ym mhob grŵp fel un i gadw amser fydd yn oedi'r amserydd yn ystod y toriad.



Arddull dadl ffurfiol y Tŷ Cyffredin

Bydd cynnal dadl yn arddull y Tŷ Cyffredin yn dwyn ynghyd yr holl sgiliau dadlau a ddatblygodd eich myfyrwyr a chynnwys pawb yn y 'ddrama' o ddadlau materion pwysig. Bydd raid i fyfyrwyr ddysgu cydbwyso'u teimladau cryf dros y pwnc gyda dadl resymol a pherswadiol.

Cynnal dadl yn arddull y Tŷ Cyffredin yn yr ystafell ddosbarth

CAM 1

Efallai y byddwch am osod yr ystafell i edrych fel siambr y Tŷ Cyffredin gyda rhesi o gadeiriau yn wynebu ei gilydd a chadair y Llefarydd wedi'i lleoli yng nghanol un o'r ochrau. Rhannwch y dosbarth yn ddwy ochr, y tîm yn rhoi'r cynnig gerbron, 'O Blaid', a'r tîm yn gwrthwynebu'r cynnig, 'Yn Erbyn'. Rhowch 10 munud i'r ddau dîm drafod eu dadl agoriadol a'r pwyntiau allweddol (o leiaf tri) o'u hochr nhw. Atgoffwch y timau nad yw o bwys ar gyfer y ddadl hon a ydyn nhw 'O Blaid' neu 'Yn Erbyn' y cynnig mewn gwirionedd, yr her iddynt yw dadlau eu hachos yn effeithiol a pherswadio aelodau'r tîm arall i newid eu meddyliau. I helpu'r timau mawr hyn i drefnu efallai y byddwch am isrannu pob un yn dri tîm llai i lunio'r dadleuon, ac yna dod â'r timau bach ynghyd i gytuno ar y prif bwyntiau. Efallai y bydd rhai dosbarthiadau angen help ar y cam hwn. Ar ddiwedd yr adran hon dylai'r timau:

- Fod â gafaél clir ar bwnc y ddadl
- Bod â'u dadl agoriadol yn barod
- Cael tri phwynt allweddol i gefnogi eu dadl
- Gwybod pwy sy'n mynd i 'arwain' ar bob pwynt

CAM 2

Cyn cychwyn, amlinellwch y rheolau ar gyfer y ddadl:

- Rhaid gwrando ar bob dadl, os bydd unrhyw un yn gweiddi allan neu'n gweiddi ar draws, byddwch chi fel Llefarydd yn gorfod gofyn am dawelwch..
- Unwaith y bydd rhyddid i'r gynulleidfa gynnig sylwadau o'r llawr ar y diwedd, rhaid i'r rheiny sydd am siarad sefyll i gael sylw'r Llefarydd ac aros am alwad i siarad.
- Dylai holl aelodau eraill bob tîm fod yn gwrando'n ofalus ar y dadleuon er mwyn penderfynu os byddan nhw'n pleidleisio 'O Blaid' neu 'Yn Erbyn' ar ddiwedd y ddadl – oes yna rywun wedi newid eu meddyliau?
- Gosodwch derfyn amser i'r ddadl gyfan a'r adeg hynny rhaid cymryd pleidlais (Canllaw – 15 munud ond mae hyn yn hyblyg gan ddibynnu ar oed a diddordeb eich grŵp yn ogystal â'r amser ar gael).

CAM 3

Cymrwch rôl y Llefarydd a dewch â'r Tŷ i 'Drefn' cyn gwahodd y tîm 'O Blaid' i roi eu cynnig gerbron. Nesaf rhowch gyfle i'r tîm 'Yn Erbyn' i ddefnyddio'u datganiad agoriadol mewn ymateb. Dylai'r ddadl nawr symud yn ôl ac ymlaen rhwng y ddwy ochr nes bydd eu cardiau dadl i gyd wedi cael eu defnyddio. Efallai y bydd aelodau'r tîm am newid eu dadleuon wrth i'r ddadl fynd yn ei blaen. Unwaith y bydd y datganiadau i gyd wedi eu rhoi, gellir agor y ddadl i'r llawr er mwyn i'r ddwy ochr ychwanegu eu pwyntiau eu hunain. Atgoffwch nhw bod rhaid iddynt sefyll i ddal sylw'r Llefarydd ac aros am ganiatâd i siarad.

CAM 4

Unwaith y bydd y ddadl wedi cyrraedd tawelwch naturiol, neu bod eich 10 munud wedi dod i ben, gofynnwch i bob prif lefarydd grynhoi eu hochr, gan ddechrau gyda'r tîm yn erbyn, ac yna'r tîm o blaid. Gallan nhw ddefnyddio'u datganiad agoriadol fel sail ac ychwanegu unrhyw syniadau cryf o'r ddadl allai yn eu barn hwy berswadio pobl i bleidleisio dros eu safbwynt nhw. Fel y 'Llefarydd', dewch â'r ddadl i derfyn a rhowch y cynnig gerbron y tŷ am bleidlais derfynol. Gallwch naill ai 'bleidleisio gyda'ch traed' drwy rannu'r ystafell yn ddwy gydag un ochr 'O Blaid' a'r llall 'Yn Erbyn' a gofyn i'r myfyrwyr symud i'r ochr fydd yn cael eu pleidlais, neu drwy godi a chyfri dwylo.



Y TY CYFFREDIN

Y drefn ar gyfer dadl mewn modd syml

Dechrau

Y Llefarydd yn dwyn y Tŷ i drefn

Yr Aelod sy'n rhoi'r cynnig gerbron yn siarad

Y Llefarydd yn 'rhoi'r testun gerbron'

Yr Aelod sydd yn erbyn y cynnig yn siarad

Oes yna drydydd parti ynghlwm wrth y ddadl?

Na

Oes

Y prif lefarydd dros y trydydd parti yn siarad

Y llefarwyr eraill yn areithio

Yr Aelod yn erbyn sy'n cloi'r drafodaeth yn siarad

Yr Aelod dros y cynnig sy'n cloi'r drafodaeth yn siarad

Y Llefarydd yn darllen allan y cynnig ac yn 'Rhoi'r Testun' gerbron y Tŷ

Y Tŷ yn rhannu, y rhifwyr yn casglu'r canlyniadau ac yn adrodd i'r Llefarydd, sy'n datgan y canlyniad

Gorffen

Defnyddiwch 'Trefn, trefn' ('Order, order') i ddod â ffurfioldeb dramatig i'r cyfan. Gwahoddwch y Cynigydd i siarad.

Dylai'r cynigydd gyflwyno araith syml, uniongyrchol a chlir gan roi rhagflas yn unig, gan adael y manylion at nes ymlaen yn y ddadl.

'Y cynnig ger ein bron yw _____'. Gwahoddwch yr Aelod sy'n gwrthwynebu i siarad.

Dylai'r Aelod sy'n gwrthwynebu gyfleu ei safbwynt yn syml, uniongyrchol a chlir. Dylai feddwl ar y pryd – ymateb i'r hyn mae newydd ei glywed – nid i'r hyn y credai y byddai'n ei glywed!

Cyflwynwch y syniad o drydydd parti ar gyfer dadleuon mwy cymhleth lle nad yw 'O Blaid' ac 'Yn Erbyn' yn ddigon.



Gwahoddwch unrhyw un i siarad 'o'r llawr'. Mewn dadl boeth efallai y bydd raid i chi ofyn a mynnu 'Trefn, trefn' eto.

Dylai'r araith hon grynhoi'r dadleuon cryfaf yn erbyn y cynnig, gan ymateb i'r hyn a ddywedwyd yn ystod y ddadl.

Ewch yn ôl i'r rheswm gwreiddiol dros y cynnig gan ailddatgan ei bwysigrwydd. Crynowch y dadleuon 'O Blaid' gan gymryd i ystyriaeth yr hyn a ddywedwyd yn ystod y ddadl.

Dramateiddiwch y bleidlais – yn enwedig os yw'n agos a ddim yn hollol glir pa ochr sydd wedi ennill. P'un ai dull 'gwahanu' neu godi dwylo a ddefnyddiwch, setlwch bawb gyda 'Trefn, trefn' cyn cyhoeddi'r canlyniad.

EWCH ATI - MYND Â'R DADLAU YMHELLACH A GWNEUD GWAHANIAETH

Mae sawl ffordd i ddatblygu diddordeb eich myfyrwyr mewn dadlau. Os ydynt yn defnyddio sgiliau dadl fel rhan o gwrs efallai hefyd y bydd angen tystiolaeth o'u gwaith arnynt ar gyfer llyfr prosiect neu debyg. Dyma rai syniadau am gamau pellach:

- Gofynnwch i'r dosbarth ysgrifennu llythyr at yr AS lleol i esbonio pam eu bod yn teimlo'n gryf am y pwnc. Gofynnwch am ymateb a dylech dderbyn ateb ganddo. Mae manylion eich AS lleol ar gael i chi yma: www.parliament.uk/mps-lords-and-offices/mps/
- Gallech hefyd ofyn i'r dosbarth ysgrifennu at eich Aelod lleol o'r Senedd Ieuenctid (MYP) i holi am eu profiad o ddadlau yn y Tŷ Cyffredin, rhannu eich ymateb chi i'r dadl, a darganfod pa ymgyrchoedd lleol sy'n cael eu cynnal yn eich ardal. Gallwch ddod o hyd i fanylion eich MYP lleol yma: www.ukyouthparliament.org.uk/in-your-area/
- Os bydd y pwnc y dadleuir yn ei gylch yn effeithio ar eich ysgol (h.y. costau cludiant lleol, problem sbwriel ac ati), gofynnwch i'r dosbarth baratoi ymgyrch ysgol i hysbysu a chynnwys cyd-ddisgyblion eraill. Gallai hyn gynnwys pleidlais ehangach i gasglu mwy o farnau, llunio pwyllgor i drafod y materion ymhellach a thrafod yr opsiynau ar gyfer newid, llunio poster neu ymgyrch gyfathrebu i addysgu eraill neu gyflwyno'u syniadau i'w Pennaeth, cyngorydd lleol neu AS.
- Edrychwch ar e-ddeisebau ar themâu tebyg i'ch dadl chi neu dechreuwch un eich hun: petition.parliament.uk
- Os yw eich myfyrwyr yn 16+, atgoffwch nhw y gallan nhw gofrestru nawr i bleidleisio yn barod at yr etholiad cyffredinol nesaf a mynnu llais ar lefel genedlaethol: www.aboutmyvote.co.uk

Gweithiwch gyda'r cyngor ysgol i gynllunio sut i ddatblygu'r mater o fewn a thu allan i'r ysgol.

Gall hyn fod yn ffordd wych o ymarfer dadlau am faterion go-iawn cyn 'mynd yn gyhoeddus'. Efallai y byddwch hefyd am gystadlu am Wobr boblogaidd Llefarydd y Senedd i Gynghorau Ysgol: www.speakersschoolcouncil.org
<http://www.speakersschoolcouncil.org/>



Gallwch hefyd ddefnyddio ein cyfres o daflenni gweithgareddau ar gyfer dadlau gyda'u cyngorion, rhestrau gwirio a nifer o syniadau i ddisgyblion eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth.

www.parliament.uk/get-debating

LLUNIWCH Y DDADL PARTNERIAID

Beth yw dadl Tŷ Cyffredin yr UKYP?

Bob blwyddyn mae Senedd Ieuenctid y DU (UKYP) yn cynnal pleidlais ledled y DU o'r enw 'Make Your Mark', pan fydd yr holl bobl ifanc drwy'r wlad yn gallu pleidleisio ar yr hyn y dylai Aelodau'r Senedd Ieuenctid, yn eu barn nhw, ymgyrchu drosto yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Wedyn cynhelir dadl gan Aelodau'r Senedd Ieuenctid yn y ddadl Tŷ'r Cyffredin flynyddol ar y pum prif fater a ddewiswyd gan y bobl ifanc, a bydd y pwnc a fydd yn ennill yn cael y flaenoriaeth yn ymgyrch yr UKYP am y flwyddyn ganlynol. Gallwch wyllo ffilm fer ar ddadl Tŷ'r Cyffredin y llynedd ar: www.byc.org.uk

Mwy am Senedd Ieuenctid y DU

Mae Senedd Ieuenctid y DU (UKYP) yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc 11-18 oed ddefnyddio'u llais mewn ffyrdd creadigol i greu newid cymdeithasol. Mae'r UKYP yn cynnwys tua 300 o MYPs (Aelodau'r Senedd Ieuenctid), sydd wedi'u hethol gan eu cyfoedion mewn etholiadau Ieuenctid ledled y DU. Gall unrhyw berson ifanc rhwng 11-18 sefyll neu bleidleisio. Ar ôl cael eu hethol, bydd MYPs yn trefnu digwyddiadau a phrosiectau, yn cynnal ymgyrchoedd ac yn dylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar faterion sydd bwysicaf yng ngolwg pobl ifanc. Ewch i'r wefan i gael gwybodaeth am yr holl ffyrdd gwyh y gall yr UKYP gefnogi pobl ifanc i barhau â'u siwrnai i faes gwleidyddiaeth, o gefnogi eu hymgyrchoedd drwy gyfryngau cymdeithasol a phleidleisio mewn etholiadau Ieuenctid, i fynychu digwyddiadau ledled y DU neu hyd yn oed sefyll eu hunain fel Aelod y Senedd Ieuenctid. Rheolir Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig (UKYP) gan y Cyngor Ieuenctid Prydeinig, elusen dan arweiniad pobl ifanc sy'n ceisio grymuso pobl ifanc drwy'r Deyrnas Unedig i gael llais a chael eu clywed.

Mae Senedd Ieuenctid y DU (UKYP) yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc 11-18 oed i ddefnyddio'u llais mewn ffyrdd creadigol i achosi newid cymdeithasol. Mae'r UKYP yn cynnwys 600 o MYPs (Aelodau'r Senedd Ieuenctid), sydd wedi'u hethol gan eu cyfoedion mewn etholiadau Ieuenctid ledled y DU. Gall unrhyw berson ifanc 11-18

oed sefyll neu bleidleisio. Unwaith y cânt eu hethol, bydd MYPs yn trefnu digwyddiadau a phrosiectau, rhedeg ymgyrchoedd a dylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar faterion sydd bwysicaf yng ngolwg pobl ifanc. Ewch i'r wefan i gael gwybodaeth am yr holl ffyrdd gwyh y gall yr UKYP gefnogi pobl ifanc i barhau â'u taith o fewn gwleidyddiaeth, o gefnogi eu hymgyrchoedd drwy gyfryngau cymdeithasol a phleidleisio mewn etholiadau Ieuenctid, i fynychu digwyddiadau'n cymryd lle ledled y DU neu hyd yn oed sefyll fel Aelod y Senedd Ieuenctid eu hunain. Ewch i www.ukyouthparliament.org.uk/get-involved neu cysylltwch ag info@ukyouthparliament.org.uk

Mwy am y Cyngor Ieuenctid Prydeinig

Ynghyd â rheoli UKYP, mae'r Cyngor Ieuenctid Prydeinig (BYC) yn cynnig nifer o gyfleoedd eraill i bobl ifanc gael llais, yn cynnwys cymryd rhan mewn ymgyrchu, dod yn aelod o gyngor Ieuenctid lleol, cymryd rhan mewn arolygon ar-lein, a hyd yn oed sefyll etholiad i ymuno â Bwrdd Ymddiriedolwyr yr elusen sydd ond yn cynnwys pobl ifanc dan 26 oed. Mae mwy o wybodaeth ar: www.byc.org.uk

LLUNIWCH Y DDADL

